



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

LLAWLYFR MODWL

Cod y Modwl: ECAD5007C

**Teitl y Modwl: Cylch 2 Astudiaethau Craidd :
Y Dysgwr: pwy ydw i'n ei addysgu?**

**BA ADDYSG GYNRADD
gyda Statws Athro Cymwysedig**

LEFEL 5

YR ATHROFA

2019-2020

1. Manylion cyswllt

Os bydd arnoch angen trafod unrhywbeth sy'n ymwneud â'r modwl cysylltwch â:

Nanna Ryder (arweinydd modwl)

E-bost: n.ryder@uwtsd.ac.uk

Rhif Ffôn: 01267 676795

Tîm Addysgu'r Modwl:

Tom Cox

Iwan Ellis Williams

Carys Jennings

2. Ein disgwyliadau

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r modwl a'r rhaglen ac rydym yma i'ch helpu.

Dylech:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Mynychu sesiynau a chymryd rhan ynddynt
- Ymddwyn yn gyfrifol
- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiad terfyn
- Ymroi a chymryd rhan ym mhob sesiwn

Darllenwch Reoliadau'r Brifysgol i Fyfyrwyr

3.Amcanion a Deilliannau Dysgu

AMCAN(ION):

- Cael athrawon dan hyfforddiant i ymwneud â gwybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach am ddatblygiad plant a ffactorau allanol mwy cymhleth sy'n dylanwadu ar les a datblygiad, er enghraifft herio'r syniad o norm.
- Datblygu sgiliau arsylwi, gwrandao ar ddysgwyr a gwerthfawrogi llais disgyblion trwy adfyfrio ar arferion, gan gynnwys arfer personol mewn lleoliad sy'n seiliedig ar addysg.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- amlygu dealltwriaeth ddyfnach o ddamcaniaethau ac ymchwil sy'n sail i ddysgu, lles a datblygiad plant 0-19 oed, gan gynnwys materion cyfoes e.e. ffoaduriaid a dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan wrthdaro;
- nodi ac adfyfrio ar y cyfrifoldebau proffesiynol a chyfreithiol o ran gweithio gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys credoau a thybiaethau personol a'u heffaith ar arfer personol;
- nodi, gweithredu ac adfyfrio ar ddulliau effeithiol o fodloni anghenion amrywiol yr holl ddysgwyr mewn lleoliadau gwahanol.

Perthynas â phedwar diben Cwricwlwm i Gymru 2022:

Datblygu plant a phobl ifanc yn:	Perthynas hynny â'r modwl hwn: Bydd myfyrwyr yn gallu:
Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.	Adnabod a bodloni anghenion amrywiol yr holl ddysgwyr i sicrhau cynnydd disgyblion.
Gyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.	Cymryd rhan mewn ystod o gyfleoedd dysgu creadigol, hyrwyddo ymreolaeth a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i addysgu a dysgu.
Ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.	Mabwysiadu rôl athro proffesiynol wrth ddeall a pharchu anghenion a hawliau disgyblion fel aelodau o gymdeithasau amrywiol, a herio tybiaethau a chredoau sy'n arwain at stereoteipio.
Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.	Dangos dealltwriaeth o ddamcaniaethau ac ymchwil sy'n effeithio ar hyrwyddo lles meddyliol ac emosiynol disgyblion trwy ddatblygu hyder, cydnherthedd ac empathi yn eu harfer.

4. Cyflwyniad i'r Modwl

Yn y modwl hwn byddwch yn:

- archwilio damcaniaethau ac ymchwil allweddol sy'n sail i ddatblygiad cyfannol plant a phobl ifanc, gan gynnwys datblygu gwybodaeth am lythrennedd corfforol a materion mwy cyfoes.
- cael cyfleoedd i nodi a gwerthuso'r modd mae theori ac ymchwil yn effeithio ar arfer mewn lleoliad addysgol.
- archwilio ymhellach gyfrifoldebau cytundebol, bugeiliol a chyfreithiol, gan gynnwys Anghenion Dysgu Ychwanegol, diogelu ac amddiffyn plant, iechyd a lles plant, a hawliau a lleisiau plant.
- ystyried ystod ehangach o ddulliau o ymgymryd ag arfer adfyfyriol a thrawsffurfiol o fewn amgylchedd addysgol.
- astudio'n fanylach yr anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol, deallusol ac anghenion eraill sy'n effeithio ar ddysgu a datblygu, gan gynnwys adnabod addysgegau perthnasol i gefnogi cynnydd.
- archwilio ymhellach strategaethau ac ymagweddau sy'n darparu'r gefnogaeth orau i gydraddoldeb ac amrywiaeth a dechrau herio credoau a thybiaethau am y norm.

5. Cynnwys y Modwl

Bydd y modwl hwn yn hybu datblygiad a chymhwysiad y tueddiadau ymchwil canlynol:

Bod yn Ymchwilydd Moesegol	Deall sylfaen foesegol ymholiad mewn gweithle cymhleth; • gwybod am egwyddorion moesegol ymchwil; • deall safleoliadaeth (<i>positionality</i>) o fewn ymchwil; • adnabod eu credoau a'u tybiaethau eu hunain am y byd.
Bod yn Ymchwilydd Medrus	Deall egwyddorion ymchwil y gwyddorau cymdeithasol, a gwybod y gwahanol fathau o ddulliau a ddefnyddir a pham; ▪ deall dulliau ansoddol a natur/statws canfyddiadau; ▪ deall dulliau meintiol a natur/statws canfyddiadau; ▪ deall dyluniadau pragmatig. Deall sut i lunio dadl yn seiliedig ar dystiolaeth a chyfiawnhad mewn ymchwil addysgol; ▪ defnyddio sgiliau darllen beirniadol; ▪ cymryd ymagwedd sgeptigol at 'dystiolaeth'. Gwerthfawrogi'n feirniadol raddfa'r gefnogaeth a all fod ar gael neu beidio o blaid damcaniaethau poblogaidd a dylanwadol mewn meysydd megis datblygiad plant a natur dysgu; ▪ cymryd ymagwedd sgeptigol at 'arloesedd' (polisi ac arfer) neu'r 'peth mawr nesaf'. Deall sut i ddefnyddio tystiolaeth empirig yn eu hystafelloedd dosbarth a gwerthuso ei heffeithiolrwydd; ▪ bod yn glir ynglŷn â'r hyn a fwriedir a pham; ▪ diffinio'r paramedrau ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd.
Bod yn Ymchwilydd Sgeptigol	Deall tystiolaeth empirig mewn maes dadleuol; • bod yn ymwybodol o'r gyrwyr gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol o blaid 'tystiolaeth', a goblygiadau 'tystiolaeth'.
Bod yn rhan o Broffesiwn sy'n Ymholi	Cyfrannu i gymuned o ymarferwyr sy'n ymholi: ▪ gwybod pa un ai i rannu deilliannau ymholiad dosbarth, pryd a sut; ▪ cyfrannu'n rhagweithiol i ystod o gynulleidfaoedd; mynd i'r afael yn weithredol â'r ymholiad a chanfyddiadau pobl eraill.

AMLINELLIAD O'R SESIYNAU

D.S. Gall trefn y sesiynau hyn newid yn unol ag amgylchiadau ac fe fydd y themâu a drafodir yn gorgyffwrdd.

Sesiwn	Cynnwys	Tiwtor
1	Cyflwyniad i nodau /amcanion y modwl a'r canlynol: Llawlyfr modwl a lleoliad deunyddiau ar Moodle Ail-ymweld â damcaniaethwyr: Damcaniaethau dysgu allweddol a dulliau gwrthgyferbyniol ac amrywiol e.e. Adeileddol, Ymddygiadol, Dyneiddiol (hanesyddol a chyfoes).	NR
Tasg Gyfeiriedig 1	Rhannu proffil Ella a chyflwyno Idris – adnabod cryfderau a heriau	NR
2	Y plentyn sy'n datblygu - ail-ymweld â datblygiad cynnar ac ymchwilio i ddealltwriaeth o'r plentyn 7+. Archwiliad pellach o ddamcaniaethau dysgu gwrthgyferbyniol gwybyddol / corfforol / emosiynol a chymdeithasol.	NR
3	Materion cyfoes 1 (cyswllt â CS & CA2) e.e. plant a theuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, addysg sipsiwn a theithwyr, SIY, mewnfudwyr, ffoaduriaid a dysgwyr yr effeithir arnynt gan wrthdaro ac ati. Ffocws ar bŵer a lleoliad yr athro.	Siardw yr gwadd
4a	Trafodaeth grŵp o'r pwyntiau allweddol a welwyd yn Nhasg Gyfeiriedig 1	NR
4b	Sicrhau cynnydd disgyblion - camau datblygiad cyfredol ac arfaethedig. Y plentyn a'i gontinwmm dysgu gan gynnwys y ddadl cam neu oed.	NR
5	Materion cyfoes 2 (cyswllt â CS & CA2) – heriau cymdeithasol i blant yng Nghymru e.e. maeth, bywyd iachus, camddefnyddio sylweddau. Effaith diwylliant perffeithrwydd corff ar iechyd meddwl disgyblion ac ymgysylltiad YC. Ffocws ar bŵer a lleoliad yr athro.	NR
6	Materion cyfoes 3 (cyswllt â CS & CA2) – e-ddiogelwch (FfCD) a dinasyddiaeth – sydd yn cynnwys: - Hunaniaeth, delwedd ac enw da - Iechyd a lles - Hawliau digidol a pherchnogaeth - Ymddygiad ar-lein a seiber-fwlio.	NR

7	Deall ymddygiad heriol a strategaethau ac ymyriadau dosbarth allweddol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 gan gynnwys yr heriau o ddarparu amgylchedd cynhwysol sy'n diwallu anghenion pob dysgwr. Herio credoau a thybiaethau am grwpiau o ddysgwyr – chwalu'r myth.	NR
8	Llythrennedd emosiynol (dysgwyr a darpar athrawon) - archwilio theori e.e. 'Healthy Mind Platter' Siegel a strategaethau e.e. ymwybyddiaeth ofalgar. Archwilio cysylltiadau â chwricwlwm I& LI ar draws y camau dilyniant (CS a CA2).	CJ
Tasg Gyfeiriedig 2	Ymchwilio ymyrraethau i gefnogi datblygiad emosiynol disgybl yng Nghyfnod Allweddol Dau. Cyswllt â'r aseiniad.	CJ
9	Ymchwilio i athroniaeth Dysgu wedi'i Bersonoli ac effaith niwrowyddoniaeth ar ddysgu. Athroniaeth plentyn-ganolog neu ddulliau didactig.	CJ
10	Heriau cymdeithasol ac ymddygiadol wrth ddysgu e.e. Cyflwr Sbectwm Awtistig. Archwilio enghreifftiau o ymyriadau effeithiol. Herio credoau a thybiaethau am grwpiau o ddysgwyr – chwalu'r myth.	NR
Tasg Gyfeiriedig 3	Cwblhau tystysgrif 'ASD Info' a'i lanlwytho i Pebblepad https://www.asdinfowales.co.uk/home.php?page_id=8971&setLanguage=4	NR
11	Datblygu ymhellach wybodaeth myfyrwyr am lythrennedd corfforol - athroniaethau sy'n sail i LC - monistiaeth a thiriaethiaeth Deall dulliau ysgogol ar gyfer cyflwyno AG a Gweithgaredd Corfforol. Symud ymlaen i sesiynau mwy strwythuredig ar gyfer BI 5 a 6 gan ddefnyddio strategaethau ac ymyriadau cynhwysol fel addysg chwaraeon, model antur awyr agored.	IEW
12a	Gweithgaredd Sgwâr y Farchnad i rannu ymyrraethau o Dasg Gyfeiriedig 2 Cysylltu gyda'r aseiniad.	NR
12b	Archwilio materion meddygol a chorfforol sy'n gysylltiedig ag ADY. Archwilio enghreifftiau o ymyriadau effeithiol. Herio credoau a thybiaethau am grwpiau o ddysgwyr – chwalu'r myth. Ail-ymweld â chanllawiau'r aseiniad.	NR
13a	Dangos tystiolaeth o gwblhau Tasg Gyfeiriedig 3 (Tystysgrif 'ASDinfo')	NR

13b	Ailedrych ar gyfranogiad disgyblion - Cyrchu a gwerthfawrogi llais disgyblion fel tystiolaeth. Gwrando ar ddysgwyr mewn ymchwil. Datblygu dealltwriaeth ddyfnach o ymarfer myfyriol a phlant fel rhan o'r gymuned ymchwil e.e. Taith Gerdded Dysgu, Ysgolion Ymchwil, Ysgol Cyfranogiad.	NR
14	Archwilio anawsterau dysgu penodol e.e. llythrennedd a rhifedd, a'r broses a phwysigrwydd adnabyddiaeth gynnar. Archwilio esiamplau o ymyrraethau effeithiol.	NR
Tasg Gyfeiriedig 4	Archwilio esiamplau pellach o ymyrraethau llythrennedd a rhifedd effeithiol.	NR
15	Cydweithio aml-asiantaethol a sicrhau cefnogaeth gynhwysol ar gyfer dysgwyr bregus.	Siarad wyr gwadd
16a	Gweithgaredd Sgwâr y Farchnad i rannu ymyrraethau o Dasg Gyfeiriedig 4. Cysylltu gyda'r aseiniad.	NR
16b	Effaith ymchwil ar gwricwlwm sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr (cysylltiadau â Dyfodol Llwyddiannus, Fframwaith Cwricwlwm 2022, prosiectau CAMAU) Archwilio cyfranogiad disgyblion o safbwyntiau rhyngwladol, e.e. Sweden, British Columbia, Seland Newydd ac ati.	NR
17	Datblygu dealltwriaeth o sociogramau Moreno, theori perthnasoedd Dunbar (Rhagdybiaeth yr Ymennydd Cymdeithasol) ac ailedrych ar Bronfenbrenner. Archwilio sociogramau gyda phwyslais ar bŵer a safle lleoliadol.	CJ
18	Damcaniaethau'n ymwneud â hunaneffeithlonrwydd a meddylfryd - Dweck, Bruner. Ystyried agweddau personol a safle lleoliadol tuag at ddysgu. Cysylltiadau â theori ysgogol.	NR
19	Defnydd effeithiol o ddata – safbwynt Ysgol.	Siarad wr gwadd
20	Athroniaeth ac ymarfer yn cwrdd: sesiwn garŵsel. Rhannu dull/ymyrraeth benodol yn seiliedig ar ymchwil bersonol a phrofiad ysgol (os yn berthnasol). Adolygu cynnwys y modwl a'r aseiniad.	NR

AMSERLEN/TIMETABLE

Wth/ Wk	Dyddiad/ Date	Amser/ Time	Ystafell / Room	Grwp/ Group	Sesiwn/ Session	Staff
28	03/03/20	9.00 -11.00	TL7	2A	Cyflwyniad (S1)	NR
		11.00-1.00	RH1	2B&2C	Introduction (S1)	NR
		1.00-3.00	CJ6	2A	Y plentyn sy'n datblygu (S2)	NR
		2.00-4.00	RH1	2B&2C	The developing child (S2)	TC
	05/03/20	9.00-11.00	RH1	2A,2B & 2C	MC1 – cefndir ethnig a.y.y.b. CI1 – ethnic minorities etc. (S3)	Siaradwyr gwadd Visiting speakers
		11.00-1.00	TL13	2A	Sicrhau cynnydd disgyblion (S4)	NR
		11.00-1.00	RH1	2B&2C	Ensuring pupil progress (S4)	TC
29	09/03/20	1.00-3.00	TL13	2A	MC2 – heriau cymdeithasol (S5)	NR
		1.00-3.00	RH1	2B&2C	CI2 – societal challenges (S5)	IEW
	11/03/20	9.00-11.00	CJ6	2A	MC3 – e-ddiogelwch a dinasyddiaeth (S6)	NR
		9.00-11.00	RH1	2B&2C	CI3 – e-safety and citizenship (S6)	TC
		11.00-1.00	CJ6	2A	Deall ymddygiad heriol (S7)	NR
		11.00-1.00	RH1	2B&2C	Understanding challenging behaviour (S7)	TC
	12/03/20	9.00-11.00	TL13	2A	Llythrennedd emosiynol (S8)	CJ
		9.00-11.00	RH1	2B&2C	Emotional literacy (S8)	NR
		11.00-1.00	TL13	2A	Personoli'r dysgu (S9)	CJ

		11.00-1.00	RH1	2B&2C	ALN - Social and behavioural challenges (S10)	NR
		2.00-4.00	TL4	2A	ADY - Heriau cymdeithasol ac ymddygiadol (S10)	NR
		2.00-4.00	RH1	2B&2C	Personalised learning (S9)	CJ
30	18/03/20	9.00-11.00	TL3	2A	Llythrennedd corfforol (S11)	IEW
		9.00-11.00	RH1	2B&2C	ALN – physical and medical & Assignment revision (S12)	NR
		11.00-1.00	TL3	2A	ADY – corfforol a meddygol & Adolygu aseiniad (S12)	NR
		11.00-1.00	RH1	2B&2C	Physical literacy (S11)	IEW
	19/03/20	9.00-11.00	TL13	2A	Llais y plentyn (S13)	NR
		9.00-11.00	RH1	2B&2C	Pupil voice (S13)	CJ
		11.00-1.00	TL13	2A	Anawsterau dysgu penodol (S14)	NR
		11.00-1.00	RH1	2B&2C	Specific learning difficulties (S14)	TC
		2.00-4.00	RH1	2A,2B & 2C	Cefnogi plant bregus Supporting vulnerable learners (S15)	Siaradwyr gwadd Visiting speakers
31	25/03/20	9.00-11.00	TL3	2A	Cyfranogiad disgyblion & chwricwlwm (S16)	NR
		9.00-11.00	RH1	2B&2C	Pupil participation & curriculum (S16)	TC
		11.00-1.00	TL3	2A	Perthnasau (S17)	CJ
		11.00-1.00	RH1	2B&2C	Relationships (S17)	NR

	26/03/20	9.00-11.00	TL13	2A	Hunan-ffeithiolrwydd a meddylfryd (S18)	NR
		9.00-11.00	RH1	2B&2C	Self-efficacy and mindset (S18)	TC
		11.00-1.00	RH1	2A,2B & 2C	Defnydd effeithiol o ddata Effective use of data (S19)	Siaradwr gwadd Visiting speaker
		2.00-4.00	RH1	2A,2B & 2C	Rhannu dysgu & adolygu cynnwys y modwl a'r aseiniad Sharing learning and revising module content and assignment (S20)	NR

6. Tasgau ac arweiniad asesu

COD Y MODWL	TEITL Y MODWL	DULL ASESU
ECAD5007C	Cylch 2 Astudiaethau Craidd: Y Dysgwr: pwy ydw i'n ei addysgu?	ASESU/CYDRAN: 1 MATH O ASEINIAD: Aseiniad Ysgrifenedig: Trafodaeth adfyfyriol o ymyrraeth i gefnogi dysgu a datblygiad. PWYSIAD Y GYDRAN: <u>100%</u> CYFRIF GEIRIAU: <u>4000</u> O EIRIAU <u>DYDDIAD CYFLWYNO:</u> 20/04/20 (23.59 p.m.)

Gweler y ffurflen Manyleb Asesu (ar Moodle) am wybodaeth a chanllawiau asesu manylach.

Teitl yr Asesiad:

Dewiswch ymyrraeth sydd yn cefnogi dysgu a datblygiad disgybl/grŵp o ddisgyblion. Adfyfyrwch yn feirniadol ar ei botensial i sicrhau cynnydd disgyblion a'r heriau posib all ymddangos.

7. Rhestr ddarllen

Cod Modwl	yECAD5007C	
Teitl Modwl	yCylch 2 Astudiaethau Craidd: Y Dysgwr: pwy ydw i'n ei addysgu?	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig
Hanfodol	Arshad, R., Wrigley, T. and Pratt, L. (eds) (2012) <i>Social Justice re-examined: dilemmas and solutions for the classroom teacher</i> . London: IOE Press.	☐
Hanfodol	Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. (2016) <i>Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion</i> , Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael ar: http://gov.wales/docs/dcells/publications/160318-inclusion-and-pupil-support-cy.pdf	☒
Hanfodol	Donaldson, G. (2015) <i>Dyfodol Llwyddiannus</i> . Hawlfraint y Goron. Caerdydd. Ar gael ar: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-cy.pdf	☒
Hanfodol	Jensen, E. (2009) <i>Teaching with Poverty in Mind</i> . Virginia: ASCD Books.	☐
Hanfodol	Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2002) <i>Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru</i> , Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.	☒
Hanfodol	Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2006) <i>Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004</i> , Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.	☒
Hanfodol	Rose, J., Gilbert, L. & Richards, L.V. (2015) <i>Health and Well-being in Early Childhood</i> . London: SAGE.	☒
Pellach	Dixon P, (2016) <i>Testing Times: Success, Failure and Fiasco in Education Policy in Wales since Devolution</i> . Cardiff: Welsh Academic Press.	☒
Pellach	Farrell, M. (2012) <i>Educating Special Children</i> (2nd ed.) Oxon: Routledge.	☒
Pellach	Guldborg, H. (2009) <i>Reclaiming Childhood – Freedom and Play in an Age of Fear</i> . London: Routledge.	☐
Pellach	Jensen, E. (2013) <i>Engaging Students with Poverty in Mind</i> . Virginia: ASCD Books.	☒

Pellach	Painter A, Bamfield M, (2015) <i>The New Digital Learning Age: How we can enable social mobility through technology</i> . London:RSA.	☒
Pellach	Pashler H, Bain PM, Bottge BA, et al. (2007) <i>Organizing Instruction and Study to Improve Student Learning. IES Practice Guide NCER 2007-2004</i> . Washington, DC: National Center for Education Research.	☒
Pellach	Unicef Early Childhood Development - https://www.unicef.org/dprk/ecd.pdf	☒
Pellach	Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2008) <i>Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru</i> , Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.	☒
Pellach	Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2010) <i>Cwricwlwm i Bob Dysgwr</i> , Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.	☒